
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau

PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU
**www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau

### Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| GWEITHGAREDD 1 | Pwy 'Di'r Babi? | 4 |
| GWEITHGAREDD 2 | Celfyddyd Naturiol | 5 |
| GWEITHGAREDD 3 | 'Stumiau Natur | 5 |
| GWEITHGAREDD 4 | Natur o Bob Lliw a Llun | 6 |
| GWEITHGAREDD 5 | Coron Ddail | 7 |
| GWEITHGAREDD 6 | Fframio Natur | 8 |
| GWEITHGAREDD 7 | Dyrnu'r Dail/ Hapa Zome | 9 |
| GWEITHGAREDD 8 | Llifynnau Naturiol | 10 |
| GWEITHGAREDD 9 | Paru Lliwiau | 11 |
| GWEITHGAREDD 10 | Gwehyddu Natur | 11 |
| GWEITHGAREDD 11 | Fframiau Dail | 12 |
| GWEITHGAREDD 12 | Stampio'r Dail | 12 |
| GWEITHGAREDD 13 | Mwd am Byth! | 13 |
| GWEITHGAREDD 14 | Cuddliw | 14 |
| GWEITHGAREDD 15 | Adeiladu Lloches | 15 |
| GWEITHGAREDD 16 | Cân Byd Natur | 16-17 |
| GWEITHGAREDD 17 | Collage | 18 |
| GWEITHGAREDD 18 | Darlunio Gyda Dail | 19 |
| GWEITHGAREDD 19 | Powlenni Natur | 19 |
| GWEITHGAREDD 20 | Rhwbio Dail | 20 |
| GWEITHGAREDD 21 | Pegiau Pili Pala | 20 |
| GWEITHGAREDD 22 | Sgerbydau Dail | 21 |
| GWEITHGAREDD 23 | Tlysau'r Dail | 21 |
| GWEITHGAREDD 24 | Papur wedi'i wneud â Llaw/Wedi'i Ailgylchu | 22 |
| GWEITHGAREDD 25 | Pobl y Dail | 23 |
| GWEITHGAREDD 26 | Mandalâu | 23 |


### Angen mwy o adnoddau dysgu, data a gwybodaeth?

E-bostiwch: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i: **www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fersiwn/iaith arall neu brint bras:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk // 0300 065 3000**

PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU
**www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau

### Cyd-destun

**Mae'r llyfryn hwn yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar archwilio byd natur drwy'r celfyddydau creadigol a mynegiannol.**


Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw hyrwyddo dulliau cynaliadwy o reoli'n hadnoddau naturiol ym mhob elfen o'n gwaith. Mae hynny'n golygu gwarchod yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

### Cyflwyniad

**Gallwch addasu'r holl weithgareddau canlynol a llawer mwy i'w defnyddio mewn coedwigoedd, ar hyd yr arfordir, mewn parciau lleol, ar dir yr ysgol ac ati.**

Daw'r gweithgareddau o ffynonellau amrywiol sydd wedi'u hamrywio a'u haddasu ar hyd y blynyddoedd.

Mae'r holl adnoddau naturiol sydd eu hangen i gyflawni'r gweithgareddau yn hawdd i'w casglu o leoliadau natur lleol, os nad ydynt ar gael yn eich lleoliad.




// *EWCH ATI I DDEWIS A DETHOL o'r gweithgareddau canlynol er mwyn archwilio'r amgylchedd i ddatblygu naws am le ymhellach, annog gweithgareddau corfforol a hybu lles.*

**Gwnewch yn siŵr fod eich gweithgareddau yn defnyddio adnoddau cynaliadwy nad ydynt yn effeithio fawr ddim ar yr amgylchedd naturiol.**

Er enghraifft:

- Cadwch lygad am blanhigion pigog, gwenwynig
- Diogelwch unrhyw rywogaeth a warchodir ar y safle
- Peidiwch â gorddefnyddio un ardal
- Peidiwch â gadael dim byd ond ôl eich troed ar y safle



### NOD

**Annog pawb i dreulio amser yn cysylltu â natur trwy brofiadau ymarferol cadarnhaol.**

**Helpu i ddatblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd a'r wybodaeth sydd eu hangen i fodloni pedwar diben Cwricwlwm Cymru.**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales


# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau



GWEITHGAREDD 1

# PWY 'DI'R BABI?





### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnwys creu amlinelliad mor fanwl â phosib o aelodau'r grŵp hwn gan ddefnyddio deunyddiau naturiol.**

### Beth i'w wneud...

1. Mewn grwpiau bach neu barau, chwiliwch am ardal sydd allan o olwg y grwpiau eraill. Dewiswch pwy sy'n actio'r 'babi' a fydd wedyn yn gorwedd ar y llawr.
2. Dylai gweddill y grŵp gasglu deunyddiau naturiol, fel hen ddail, tywod, cerrig, brigau ac ati, er mwyn creu amlinelliad o'r 'babi' gan geisio cynnwys cymaint ag sy'n bosib o fanylion fel y bysedd.
3. Ar ôl cwblhau'r amlinelliad, helpwch y 'babi' yn ôl ar ei draed mor ofalus â phosib rhag difetha'r amlinelliad.
4. Gorffennwch y darn trwy ddod o hyd i wrthrychau yn yr amgylchedd sy'n cynrychioli lliw llygaid y 'babi', creu steil gwallt tebyg a dillad tebyg.

// *Ar ôl gorffen, gofynnwch i weddill y dysgwyr geisio dyfalu pa aelod o'r grŵp oedd y 'babi' ar sail yr amlinelliad neu'r "cysgod"*

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 2

## CELFYDDYD NATURIOL

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnwys defnyddio'r dychymyg a chydweithio i gynllunio, dyfeisio a chreu darn o waith celf pwrpasol (fel rhan o bwnc neu ddull rhydd).**

### Beth i'w wneud...

1. Trafodwch thema'r darn o gelf e.e. anifail, ardal amgylcheddol 3D fel ynys, unigolyn ac ati.
2. Mewn grwpiau bach neu barau, gofynnwch i'ch dysgwyr ddod o hyd i le gwastad, agored, ar gyfer eu 'cynfas' a brwsio'r dail neu falurion oddi yno.
3. Neilltuwch amser iddyn nhw gasglu adnoddau diddorol ac addas o'r safle a'u trefnu i greu darlun, cerflun neu gelfyddyd haniaethol sy'n addas i'r pwnc gosod neu'r thema y cytunwyd arni.
4. Gall dysgwyr ddefnyddio'r brigau, cerrig neu batrwm amlinellol yn y tywod i greu ffrâm ar gyfer y darn.

**Efallai y bydd DYSGWYR LLAI ABL angen oedolyn i gefnogi pob grŵp neu ddangos darlun iddyn nhw seilio eu darn arno. Gallech hefyd ddefnyddio cylch i lywio'r maint a fframio'r gwaith. Gall DYSGWYR MWY ABL dynnu llun ffotograff o'u gweithiau celf a'i atgynhyrchu mewn cyfrwng arall e.e. paent.**




GWEITHGAREDD 3

## 'STUMIAU NATUR

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn gofyn i ddysgwyr chwilio drwy'r amgylchedd am elfennau'r wyneb yn yr amgylchedd naturiol. Mae llefydd â choed neu greigiau yn arbennig o addas ar gyfer hyn.**

### Beth i'w wneud...

1. Yn unigol neu mewn parau, gofynnwch i'ch dysgwyr fynd ati i chwilio am olion wynebau a rhannau o'r corff mewn rhisgl coeden, ar ganghennau ceinciog, amlinellau cloddiau ac ati.
2. Mae modd defnyddio dŵr, mwd a/neu glai i bwysleisio'r rhain a darparu rhagor o fanylion.

*// Pawb i asesu'r darnau unigol ar ôl gorffen.*

**GWEITHGAREDD ESTYNEDIG gofynnwch i'r dysgwyr roi enw a stori gefndir i bob 'wyneb'. Tynnwch lun ohono a'i ddefnyddio fel cymorth cof er mwyn creu darn o ysgrifennu creadigol.**

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau



GWEITHGAREDD 4

# NATUR O BOB LLIW A LLUN

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn addas i greu pob math o bethau fel: coronau natur a nodau llyfrau bach, ond mae hefyd yn gallu tynnu sylw at amrediad o liwiau, patrymau a dilyniannau.**

***/ / DEWISOL – lamineiddio i greu nod llyfr.***

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Papur/cerdyn siwgr neu rywbeth tebyg mewn siâp a maint gofynnol. Selotep gludbob-ochr.

### Beth i'w wneud...

1. Creu stribedi casglu trwy dorri'r papur neu'r cerdyn i'r maint gofynnol a rhoi darn o selotep glud-bob-ochr i lawr y canol.
2. Rhowch stribed casglu i bob dysgwr a gofyn iddyn nhw chwilio am gymaint o liwiau, siapiau a gweadau gwahanol i'w gludo arnynt.
3. Anogwch nhw i ludo darnau bach iawn ar y tro, er enghraifft, rhwygo darn bach o ddeilen i'w gludo yn hytrach na gludo'r ddeilen gyfan sy'n cymryd gormod o le ar y cerdyn. Bydd hyn yn creu effaith fosaig well yn gyffredinol.
4. Pan fydd eich holl ddysgwyr wedi gorffen llenwi eu stribedi casglu, rhowch nhw ar y llawr gyda'i gilydd. Gofynnwch i'r grŵp ddweud beth sy'n eu taro am y stribedi casglu? Pa liwiau sydd yno, faint o liwiau gwahanol a lwyddwyd i'w canfod, beth sydd mor arbennig amdanyn nhw, p'un yw eu hoff liw, ydyn nhw i gyd yr un fath?
5. Ceisiwch wneud y gweithgaredd hwn ar adegau gwahanol o'r flwyddyn ac mewn amgylcheddau gwahanol i gael canlyniadau gwahanol.


Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau





### GWEITHGAREDD 5

# CORON DDAIL

### Crynodeb

**Gweithgaredd gwych i elwa ar liwiau dail yr hydref!**

*Mae creu coron ddail yn cysylltu'n arbennig o dda â dathliadau, brenhinoedd a breninesau a straeon fel 'Where the Wild Things Are' gan Maurice Sendak. Gallai'ch dysgwyr ddefnyddio eu coronau dail i fod yn frenin, brenhines neu rywbeth gwyllt!*

### Beth i'w wneud...


1. I greu coron ddail, bydd angen i'r dysgwyr gasglu swp o ddail amrywiol yn gyntaf.
2. Gan ddibynnu ar eu hoedran a'u gallu, efallai y bydd angen i oedolyn eu helpu i greu'r goron.
3. Gan wnïo gyda dail i bob pwrpas, rydych chi'n dewis dwy ddeilen ac yn tynnu'r coesynnau i ffwrdd.
4. Dylai'r dail orgyffwrdd â'i gilydd, ac wedi eu pinio'n sownd trwy ddefnyddio coesyn un ddeilen.
5. Yna, ychwanegwch ddeilen arall; tynnu'r coesyn a'i binio'n sownd.
6. Daliwch i ychwanegu dail, un ar y tro, hyd nes bod digon wedi'u clymu i fynd o amgylch pen y dysgwr.
7. Yna, defnyddir coesyn y ddeilen olaf i uno'r ddeilen gyntaf a'r olaf gyda'i gilydd.

**Gallwch helpu DYSGWYR LLAI ABL trwy baratoi coron ymlaen llaw – torrwch stribed o gardbord digon hir i fynd rownd eu pen. Ychwanegwch stribed o selotep glud-bob-ochr cyn staplo neu dapio'r cerdyn i'r maint cywir. Ewch â'r goron allan gyda chi, a'i haddurno trwy ychwanegu dail at y selotep glud-bob-ochr wrth iddyn nhw fynd.**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 6

# FFRAMIO NATUR

### Crynodeb 1

**Mae'r gweithgaredd hwn yn creu adnoddau y gallwch eu defnyddio mewn gweithgareddau fframio natur.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Cerdyn, glud, siswrn

### Beth i'w wneud...

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr gasglu dail a gwrthrychau naturiol.
2. Gofynnwch iddyn nhw dorri cerdyn ar siâp ffrâm llun o'r maint gofynnol.
3. Gallwch ludo haen o ddail ac eitemau eraill o amgylch y ffrâm.
4. Gadewch iddyn nhw sychu'n llwyr cyn defnyddio'r ffrâm.

---

### Crynodeb 2

**Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar safbwyntiau gwahanol a datblygu iaith ddisgrifiadol.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Fframiau llun hen neu newydd, gyda'r gwydr a'r darn ôl wedi eu tynnu – neu gwnewch ffrâm gardbord. DEWISOL- llinyn a phegiau.

### Beth i'w wneud...

1. Rhannwch eich dysgwyr yn barau neu'n grwpiau bach.
2. Rhowch ffrâm llun i bob grŵp.
3. Gofynnwch iddyn nhw gymryd eu tro yn defnyddio'r ffrâm, gan ganolbwyntio ar wrthrychau neu olygfeydd diddorol, pert, anghyffredin ac ati.
4. Dywedwch wrthyn nhw am ddisgrifio'r hyn sydd yn y ffrâm a beth sy'n denu'r llygaid.
5. Pasiwch y ffrâm i'r dysgwr nesaf ac ailadrodd.
6. Ffordd arall o gyflwyno'r dasg hon yw gosod 'lein ddillad' a chlipio'r fframiau ar ei hyd. Yna, gall dysgwyr ddilyn y lein, edrych drwy bob ffrâm a disgrifio sut mae pob safbwynt/golygfa wedi newid fymryn.

**GWEITHGAREDD ESTYNEDIG - tynnwch lun o wrthrychau a safbwyntiau'r ffrâm ddewisol, a'u defnyddio fel cymorth cofio er mwyn ail-greu'r ddelwedd mewn cyfrwng arall fel collage neu waith celf naturiol.**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




### GWEITHGAREDD 7



# DYRNU'R DAIL / HAPA ZOME

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn stampio neu wasgnodi siâp a lliw'r dail gan ddefnyddio'r llifynnau naturiol sydd ynddyn nhw.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Deunydd cotwm wedi'i dorri i'r faint gofynnol
Gordd rwber, morthwylion bach, neu offer tebyg.

### Beth i'w wneud...

1. Cyn gofyn i'ch grŵp fynd i gasglu dail a blodau, cofiwch y bydd y rhywogaethau dewisol yn gwneud byd o wahaniaeth i effeithiolrwydd y canlyniadau.
2. Dail a blodau llawn lleithder sy'n creu'r canlyniadau gorau.
3. Unwaith rydych chi wedi casglu digon o ddeunyddiau naturiol, rhowch ddarn o ddefnydd a gordd/morthwyl/carreg i bob aelod o'r grŵp. **Dangoswch y dechneg fwyaf diogel o ddefnyddio'r offer dan sylw cyn dechrau arni.**
4. Dywedwch wrth eich dysgwyr i drefnu eu defnyddiau naturiol ar un hanner o'r clwtyn. Yna, dylent blygu'r clwtyn yn hanner dros y dail a/neu'r blodau neu betalau.
5. Gan weithio ar wyneb llyfn, dylai'r dysgwyr daro eu 'Hapa-Zome' yn dyner gyda gordd, morthwyl neu hyd yn oed ddarn o graig lyfn er mwyn creu drychddelwedd o'u hadnoddau sydd wedi'u gosod yn ofalus.
6. Ewch ati i drafod a gwerthuso'r creadigaethau.

**GWEITHGAREDD ESTYNEDIG – ewch ati i drafod a chymharu'r canlyniadau gan ddefnyddio cotwm o drwch gwahanol, mathau gwahanol o blanhigion a blodau, ac ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.**


# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 8

# LLIFYNNAU NATURIOL



### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn arbrofi gyda deunyddiau naturiol gwahanol i greu lliwiau a phatrymau hardd. Mae modd defnyddio pob math o gnau, sbeisys, aeron a blodau i greu llifynnau saff, naturiol ar gyfer ffabrigau.**

**COFIWCH – er ei bod hi' n iawn i gyffwrdd y deunyddiau naturiol hyn, fe allan nhw staenio dwylo neu ddillad! Trefnwch ffedogau a cyfleusterau golchi dwylo wrth law.**

**Mae rhagor o gyngor a chanllawiau ar sut i liwio ar gael ar-lein.**

### Beth i'w wneud...

1. I sicrhau'r canlyniadau gorau, defnyddiwch ffabrigau a wnaed o ddeunyddiau naturiol eu hunain, e.e. cotwm, sidan, gwlân a lliain sy'n amsugno llif orau.
2. Ni fydd pob deunydd naturiol yn cynhyrchu llifyn, ac mae rhai'n cynhyrchu lliwiau hollol wahanol i'r planhigyn gwreiddiol.

- **Oren:** moron, cennau (aur) a chrwyn nionod/ winwns
- **Brown:** gwreiddiau dant y llew, rhisglen dderwen, bagiau te, coffi mâl a mês (wedi'u berwi)
- **Pinc:** aeron, ceirios, rhosod coch a phinc a chrwyn afocado
- **Glas:** eirin ysgaw, llus a grawnwin piws
- **Brown-goch:** betys a chrwyn nionod coch
- **Llwyd-ddu:** mwyar duon
- **Gwyrdd:** artisiogau, sbigoglys, glaswellt a danadl poethion
- **Melyn:** dail llawryf, blodau Mair, petalau blodau haul, blodau dant y llew, paprica a twrmerig

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




### GWEITHGAREDD 9

# PARU LLIWIAU

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio lliwiau, a'u tonau ac arlliwiau o fewn natur.**


### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Detholiad o samplau lliw gan gyflenwyr paent neu fersiynau cartref.

### Beth i'w wneud...

1. Rhowch sampl lliw o'r palet i bob dysgwr a gofyn iddyn nhw chwilio am liw cyfatebol mor debyg â phosib yn yr amgylchedd naturiol. Os nad oes modd casglu'r eitem, ceisiwch dynnu llun ohoni.
2. Ar ôl gorffen, rhowch sampl arall a dal ati. Trafodwch pa liwiau/arlliwiau oedd yr hawsaf i'w canfod, a pham tybed?
3. Archwiliwch pa liw ac arlliw oedd yn naturiol a pha rai oedd yn lliwiau 'gwneud' yn yr amgylchedd. Sut lwyddodd yr eitemau gwneud i gyrraedd yno?

**Ar gyfer DYSGWR LLAI ABL, gallwch ddarparu palet sy'n dangos yr ystod o arlliwiau o fewn yr un lliw, a gofyn iddyn nhw chwilio am liw cyfatebol i bob un.**




### GWEITHGAREDD 10

# GWEHYDDU NATUR

### Crynodeb

**Gweithgaredd amrywiol i archwilio gweadau a lliwiau naturiol.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Brigau siâp 'Y' a llinyn, edau neu bethau tebyg

### Beth i'w wneud...

1. Dechreuwch trwy ofyn i'ch dysgwyr ffeindio brigyn siâp 'Y'.
2. Nawr, gofynnwch iddyn nhw i glymu a lapio darn o edau neu linyn o amgylch dwy fforch y brigyn siâp Y.
3. Unwaith iddyn nhw greu'r gwŷdd, dywedwch wrth eich dysgwyr am fynd i gasglu deunyddiau naturiol fel glaswellt, brigau, dail ac ati.
4. Nawr, ewch ati i wehyddu rhwng y llinyn/edau croes i greu cynllun.

**Gallwch ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy ddefnyddio ffens neu gylch er mwyn creu fersiynau ar raddfa fwy. Gall DYSGWYR MWY ABL greu eu gwŷdd cardbord eu hunain.**

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 11

## FFRAMIAU DAIL

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn bwrw golwg fanylach ar strwythur, lliw a gwead dail.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

FFRÂM GERDYN: plygwch gerdyn A5 yn ei hanner, torrwch sgwâr 5cm x 5cm o ganol y ddau hanner i greu ffenestr.

### Beth i'w wneud...

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr chwilio am ddeilen ddiddorol yr olwg, a'i rhoi yng nghanol y ffrâm ddail fel ei bod yn ymddangos rhwng y darn sgwâr a dorrwyd.
2. Gan edrych i'r golau, daliwch y ddeilen a fframiwyd yn erbyn un llygad, a chau'r llygad arall.
3. Gan symud y ddeilen a fframiwyd i ffwrdd o'u llygad agored yn raddol, gofynnwch i'ch dysgwyr ganolbwyntio ar fanylion y ddeilen, gan sylwi ar y gwythiennau bach, y lliwiau amrywiol, gweadau, blew bach, a'r marcwyr unigol wrth barhau i symud y ddeilen i ffwrdd.
4. Gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio'r hyn a welant.

**Gallwch ESTYN Y GWEITHGAREDD hwn trwy dynnu llun manwl o' r ddeilen.**




GWEITHGAREDD 12

## STAMPIO'R DAIL

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio siapiau a meintiau'r dail.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Padiau stampio inc a phapur


### Beth i'w wneud...

1. Gofynnwch i'ch grŵp gasglu dail o rywogaethau, meintiau a siapiau gwahanol.
2. Dylen nhw roi eu dail ar y pad inc wedyn, gydag ochr y gwythiennau ar i lawr.
3. Yna, rhowch ddarn o bapur dros y ddeilen a'i wasgu'n gadarn ac yn wastad.
4. Codwch y ddeilen yn ofalus wedyn, a'i rhoi ar ddarn newydd o bapur cyn ei gwasgu'n gadarn eto.
5. Tynnwch y ddeilen yn ofalus eto fel nad yw'n difwyno'r inc – dylech weld patrwm y ddeilen wedi'i argraffu ar y papur.
6. Daliwch ati i wneud hyn i greu darlun o ddail.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 13

# MWD AM BYTH!



### Crynodeb

**Gallwch ddefnyddio mwd fel cyfrwng creadigol ar gyfer pob math o weithgareddau creadigol.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Mae gwyddoniaeth yn dangos fod ein byd hylan ni heddiw yn cyfrannu at lefelau cynyddol o alergeddau ac asthma ymhlith plant. Mae bod yn agored i faw a germau yn helpu i baratoi system imiwnedd plentyn er mwyn atal alergeddau. Ydy, mae'n beth iach i blant focha mewn mwd!

Mwd

Dŵr ar gyfer glanhau

### Beth i'w wneud...

#### PELI MWD

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr greu pelen o lond llaw o fwd.
2. Casglwch ddeunyddiau naturiol fel dail, mwsogl a brigau i orchuddio'r peli mwd, a'u rhoi at ei gilydd i greu cerflun naturiol.

#### PEINTIO MWD

1. Gall dysgwyr ddefnyddio eu dwylo neu ffyn i greu marciau yn y mwd, rhoi mwd ar bapur, boncyffion neu greigiau. Gellir defnyddio sialc wedyn i ychwanegu lliw.
2. Gellir defnyddio hen gynfas gwely i greu paentiad mwd fel grŵp.
3. Gellir defnyddio dail a gwrthrychau naturiol eraill i brintio a chreu amlinelliad ar gyfer ysgeintio â mwd.

#### CRACIAU MWD

1. Dylai'r dysgwyr ledaenu mwd dros arwyneb caled, fel craig, a'i adael i sychu.
2. Os yw'r mwd yn cynnwys cyfran uchel o glai, bydd yn dechrau dangos patrwm cymhleth o graciau wrth sychu.
3. Gellir copïo'r patrwm ar bapur neu dynnu llun ohono i'w ail-greu wedyn.

#### ANGHENFILOD MWD

1. Er mwyn creu anghenfil mwdlyd, bydd angen i ddysgwyr gael llond llaw o fwd yr un a'i ffurfio'n belen.
2. Dylid pwyso'r belen ar arwyneb addas wedyn e.e. wal neu foncyff, a llyfnhau'r ymylon er mwyn ei helpu i lynu ar wyneb y wal neu'r pren.
3. Gellir defnyddio gwrthrychau naturiol i greu stumiau wyneb.
4. Gellir datblygu'r gweithgaredd hwn i bethau fel creu cerfluniau mwd, a chysylltu hynny â phynciau neu straeon gwahanol fel: bwystfilod bach, ni ein hunain ac ati.

**GALLWCH ESTYN Y GWEITHGAREDDAU hyn trwy ofyn i'r dysgwyr ddod â photyn bach o fwd o'u gardd neu eu hardal leol, a chymharu lliwiau a gweadau.**

**Trafodwch allan o beth mae mwd wedi'i wneud, a pha fath o greaduriaid sy'n ei ddefnyddio fel cynefin.**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 14

# CUDDLIW

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn ystyried y cysyniad o guddliw, a pham mae'n bwysig i fyd natur.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Mwd a gwrthrychau naturiol eraill, papur, cerdyn, sialc a glud

### Beth i'w wneud...

#### CELF CUDDLIW

1. Gofynnwch i bob dysgwr gasglu gwrthrych naturiol bach e.e. cragen malwen, plu, deilen neu hedyn, y gallant eu gludo yng nghanol darn o bapur wedyn.
2. Gan ddefnyddio sialc neu basteli, allai'ch dysgwyr chi barhau â phatrymau'r gwrthrych hwn ar y papur?
3. Bydd hyn yn creu llun cuddliw fel ei bod hi'n anodd gweld lle mae'r gwrthrych yn gorffen a'r llun yn dechrau.

#### HER CUDDLIW

1. Rhannwch eich dysgwyr yn grwpiau bach sydd allan o olwg ei gilydd.
2. Dywedwch wrthyn nhw am ddewis aelod i'w guddliwio.
3. Rhaid i bob grŵp gydweithio wedyn i addurno darn mawr iawn o gerdyn neu hen gynfas gwely â mwd, dail ac ati, ar ffurf cuddliw.
4. Yna, gall y grŵp benderfynu ar y lle gorau i guddio'r aelod dewisol o'r grŵp, a'i orchuddio gyda'r cerdyn/cynfas wedi'i chuddliwio.
5. Gall y grwpiau eraill ddod o hyd i'r dysgwr cudd? Pawb i gymryd eu tro hyd nes y byddant wedi dod o hyd i'r dysgwr sydd wedi'i guddliwio. Gofynnwch iddyn nhw gymharu ac asesu'r celf cuddliw.

**Gallwch ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy roi cynnig arni mewn ardaloedd ecolegol gwahanol.**

#### MYGYDAU CUDDLIW

1. Rhowch dempled o fwgwd syml i bob dysgwr. Gofynnwch iddyn nhw gasglu deunyddiau naturiol a'u gludo ar y mwgwd.
2. Ar ôl gorchuddio'r mwgwd â chuddliw, gludwch ffon ar gefn y mwgwd er mwyn i'r dysgwr ei ddal o flaen ei wyneb.
3. Unwaith mae'r mygydau wedi'u cwblhau, rhowch gyfle i'r dysgwyr brofi eu cuddliw trwy guddio yn y goedwig tra bod eraill yn ceisio dod o hyd iddyn nhw.
4. Tynnwch luniau a'u hargraffu i chwarae gêm o 'welwch chi'r dysgwyr'!

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales


# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 15

# ADEILADU LLOCHES



### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn annog pawb i gydweithio a chyfathrebu wrth gynllunio, dylunio ac adeiladu lloches addas. Coetir lleol yw'r lle gorau i gynnal hwn.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

// ***NODYN GWYBODAETH** - Llochesi a ffeuau*
***CARDIAU ADNODDAU** - Her lloches greadigol*

Llinyn/cortyn, clipfyrddau, papur a phensiliau

### Beth i'w wneud...

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr weithio mewn grwpiau bach i gynllunio a chreu llun o'r lloches dan sylw.
2. Dylen nhw ystyried rhwystrau ac addasiadau.
3. Efallai yr hoffech ofyn iddyn nhw greu model bach i brofi pa mor addas yw e, gan ddefnyddio ffyn bach neu sbageti, gyda malws melys fel y cysylltwyr.
4. Mewn grwpiau, dylai'r dysgwyr gydweithio i gwblhau her y lloches greadigol ac adeiladu lloches maint llawn gyda deunyddiau naturiol yr ardal.

**Gall DYSGWYR LLAI ABL gydweithio i greu lloches ar gyfer tegan meddal.**

**Gall DYSGWYR MWY ABL adolygu'r lloches gorffenedig. Gallant greu a chynnwys cynllun ôl-weithredol i ddangos dealltwriaeth o'r broses adeiladu.**




# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 16

# CÂN BYD NATUR



### Crynodeb

**Mae sawl ffordd wahanol o fod yn gerddorol greadigol ym myd natur!**

**RHAN 1**

MWY O WEITHGAREDDAU AR Y DUDALEN GANLYNOL

## Beth i'w wneud...

### STORM O DDAIL

**Gweithgaredd delfrydol ar ddiwrnod sych o hydref!**

1. Yn gyntaf, dywedwch wrth bawb am casglu pentwr mawr o ddail.
2. Gyda phawb yn sefyll ag un droed wedi'i chladdu o dan y dail, gofynnwch iddyn nhw ddal llond llaw o ddail yr un a disgwyl i'r storm gyrraedd...

**Nawr gofynnwch i'r grŵp actio golygfa o storm:**

1. Mae awel ysgafn yn siglo topiau'r coed...un ar y tro, mae'r dysgwyr yn dechrau siffrwd y dail gyda'u traed.
2. Wrth i'r gwynt ddechrau cryfhau... mae'r sŵn siffrwd yn dechrau cynyddu.
3. Mae'r dail yn dechrau dawnsio yn yr aer a chwyrlïo o gwmpas...dylai'r dysgwyr daflu eu dyrnaid o ddail i'r awyr.
4. Mae'r storm yn cyrraedd ... y dysgwyr i stompio a chicio'r dail mor swnllyd â phosib!
5. Ymhen amser, mae'r storm yn gostegu, y gwynt yn tawelu a'r byd yn llonydd unwaith eto...mae'r sŵn siffrwd yn lleihau i ddim.

### SYMFFONI BYD NATUR

1. Yn gyntaf, gofynnwch i'ch dysgwyr gasglu seiniau natur trwy gerdded neu eistedd mewn lleoliad natur lleol, a gwrando ar y synau gwahanol o'u cwmpas.
2. Gan ddefnyddio darn bach o gerdyn neu bapur cerddoriaeth, dylen nhw nodi pob sŵn yn ôl trefn clywed, gyda gair disgrifiadol neu lun o'r sŵn e.e. llun o gwmwl neu farc troelli i gyfleu'r sŵn.
3. Pan fyddan nhw'n barod, dylai'r dysgwyr ddefnyddio eu cyrff i gyfleu'r synau a glywyd ac ailchwarae'r 'gerddoriaeth' o'r dechrau i'r diwedd.
4. Neu, gallant ymchwilio i'r defnydd o offerynnau cerdd addas er mwyn ail-greu synau tebyg a chanu'r 'gerddoriaeth'.
5. Gofynnwch i bawb chwarae'r gerddoriaeth yr un pryd wedyn, neu un ar ôl y llall, i greu symffoni naturiol.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau





GWEITHGAREDD 16

# CÂN BYD NATUR

### Parhau

**RHAN 2** DYMA FWY O WEITHGAREDDAU



### STORM LAW

**Gan eistedd mewn cylch, dywedwch wrth y dysgwyr am gopïo symudiadau a synau bob yn un mewn cylch (fel ton).**

Dechreuwch adrodd hanes storm law.

1. Yna, dechreuodd hi fwrw ambell ddafn – gofynnwch i'r dysgwyr glicio eu bysedd yn ysbeidiol
2. Wedyn, dechreuodd hi fwrw'n ysgafn ac yna'n drymach – clicio bysedd yn fwy brwd
3. Dyma fwy a mwy o law yn disgyn – clapio'n ysgafn
4. Ac yn drymach – clapio'n galetach
5. Dechreuodd bistyllio bwrw - slapio pengliniau
6. Mae'r gwynt yn dechrau chwythu - ychwanegwch sŵn chwythu
7. A dyma'r storm yn taro – chwipio pengliniau, stampio'r llawr â'u troed a chwythu'n swnllyd
8. Yna, dechreuodd y storm wasgaru – stopio chwythu a stampio
9. Dechreuodd fwrw llai a llai – stopio slapio pengliniau a dychwelyd i guro dwylo'n ysgafn a chlicio bysedd wedyn
10. Mae'r glaw yn peidio – tawelwch

// ***DEWISOL – ailadrodd heb siarad. Pa synau eraill o'r corff allwch chi eu hychwanegu at y 'storm'?***

### OFFERYNNAU NATUR

**Ffyrdd hawdd o greu offerynnau cerdd gan gynnwys:**

1. Creu ffyn gyda 2 ffon neu frigyn bach.
2. Defnyddio bonyn coeden fel drwm.
3. Creu rhuglen ddail trwy wthio dail sych trwy ddarn bach o weiren neu lanhawyr pibell a chlymu'r ddau ben yn sownd.
4. Neu, beth am ddefnyddio brigyn siâp Y trwy roi dail sych neu leiniau eirian ysgaw ar ddarn o gortyn neu garrai esgid a'u clymu'n dynn i'r ddwy fforch.
5. Clymu darn o raff rhwng dau bwynt, e.e. coed, a defnyddio'r darn canol wedyn i hongian brigau o feintiau gwahanol i greu seiloffon pren mawr.
6. Gwthio llinyn drwy gregyn môr a'u hongian o frigyn i greu sain clychau'r gwynt.
7. Casglu amrywiaeth o wrthrychau naturiol bach i greu brigau/ffyn glaw.

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




### GWEITHGAREDD 17

# COLLAGE

## Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Camera digidol

Deunyddiau collage fel dail, brigau, cerrig, mwsogl ac ati.

Papur a glud

## Beth i'w wneud...

### CREU COLLAGE O LUN

1. Mewn ardal natur leol, gofynnwch i bob dysgwr dynnu llun o olygfa naturiol, planhigyn, coeden neu olygfan ac ati, sy'n ddiddorol iddyn nhw.
2. Gan ddefnyddio'r ffotograff fel canllaw, gofynnwch iddyn nhw ail-greu'r darlun gyda deunyddiau naturiol a chyfryngau eraill fel sialc neu fwd.
3. Ewch ati i estyn y gweithgaredd trwy greu model 3D.

## Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio pob math o wrthrychau naturiol i archwilio cyfansoddiad a gwead i lywio'r broses greadigol.**

### CAWL COLLAGE

1. Casglwch ddail a gwrthrychau naturiol i'w defnyddio fel deunyddiau creadigol.
2. Gofynnwch i'r grŵp ddarlunio eu lluniau eu hunain neu rhowch dempled o greadur iddyn nhw, fel draenog neu dylluan, sydd bob amser yn gweithio'n dda gyda dail.
3. Neu, rhowch rwydd hynt iddyn nhw greu darn dychmygol fel anghenfil natur.
4. Gludwch y deunyddiau a gasglwyd er mwyn addurno eu llun. Gall y lluniau fod yn rhai bach neu fawr.
5. Mae clamp o gollage grŵp yn gallu bod yn hynod effeithiol a difyr i'w greu!

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 18

## LEAF SPLATTER

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio technegau stensilio anniben.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Paent posteri a phapur

Brwsys dannedd, brwsys ewinedd neu rywbeth tebyg

DEWISOL - jariau gwydr

### Beth i'w wneud...

1. Dylai'r dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o ddail fel stensiliau trwy eu gosod ar bapur a throchi'r hen frwsys dannedd/ewinedd yn y paent.
2. Dylen nhw drochi'r brwsys yn iawn er mwyn tasgu'r paent dros y dail ac o'u hamgylch nhw.
3. Gallant greu patrymau trwy ddefnyddio lliwiau gwahanol a rhoi un ddeilen ar ben y llall.
4. Ar ôl gorffen, gallwch greu crogluniau trwy eu clymu at frigyn neu eu lapio o amgylch jar addas â channwyll i greu llusern.




GWEITHGAREDD 19

## POWLENNI NATUR

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn cyfuno gludyddion a dail i grefftio gwrthrych.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Glud PVA neu bast papur wal

Cynhwysydd bach plastig e.e. powlen, twbyn neu bot blodau

Jeli petroliwm (Vaseline)

### Beth i'w wneud...

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr gasglu amrywiaeth o ddail, blodau, hadau ac ati.
2. Yna, dylent orchuddio eu cynhwysyn â jeli petroliwm er mwyn atal y deunyddiau naturiol rhag glynu'n barhaol i'r cynhwysydd.
3. Dylent osod eu heitemau naturiol o amgylch rhan allanol y cynhwysydd.
4. Ar ôl gorffen adeiladu, taenwch ddigonedd o lud PVA dyfrllyd neu bast papur wal ar yr eitemau naturiol.
5. Daliwch ati i greu sawl haen o ddail.
6. Gadewch i'r cyfan sychu'n llwyr cyn tynnu'r cynhwysydd i ddatgelu'r bowlen natur.

# Awyr Agored Creadigol

// Gemau a Gweithgareddau




GWEITHGAREDD 20

## RHWBIO DAIL

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn bwrw golwg fanwl ar strwythurau dail – mae'r teitl yn dweud y cyfan!**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Papur, creonau, pensiliau, pasteli neu debyg

### Beth i'w wneud...

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr gasglu pob math o ddail gwahanol – yn enwedig rhai â gwythïennau amlwg a siâp unigryw.
2. Yna, gan ddefnyddio arwyneb gwastad, trefnwch y dail â'r gwythiennau i fyny.
3. Rhowch ddalen o bapur i bob dysgwr i'w rhoi ar ben y dail, a gofyn iddyn nhw rhwbio drostynt gyda'u marciwr.
4. Ar ôl gorffen, gallant eu defnyddio i greu symudyn dail, eu lamineiddio i greu gêm snap y dail neu lyfrnodau. Hefyd, gallant eu labelu a'u defnyddio i adnabod coed.




GWEITHGAREDD 21

## PEGIAU PILI PALA

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio cymesuredd a phatrymau natur.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Pegiau pren. Deunyddiau addurnol. Papur crêp. Cortyn / edafedd.

### Beth i'w wneud...

1. Gan ddefnyddio eu templed pili pala, dylai dysgwyr ddarlunio a thorri allan eu siâp pili pala.
2. Yna, gallant addurno'r pili pala mewn cyfrwng o'u dewis gan ganolbwyntio ar batrwm a chymesuredd.
3. Ar ôl gorffen gwneud hyn, mae angen gludo peg ar ochr isa'r pili pala a rhoi ychydig o bapur crêp yn sownd iddo fel eu bod nhw'n hofran y tu ôl i'r pili pala. Pan fydd popeth yn sych, clymwch ddarn o gortyn/edafedd ar y peg.
4. Yna, gallai'r dysgwyr wneud i'w pili pala hofran trwy redeg o gwmpas a llusgo'r cortyn ar eu hôl.
5. Neu, gallant ddefnyddio'r peg i hongian y creadigaethau ar lein ddillad i edrych yn ddel yn y gwynt.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

## // Gemau a Gweithgareddau




### GWEITHGAREDD 22

## SGERBYDAU DAIL

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio strwythur dail.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Sosban fawr a dŵr

### Beth i'w wneud...

1. Dail mawr, cadarn, trwchus sydd orau ar gyfer hyn.
2. Rhowch y dail mewn sosban fawr o ddŵr a'u berwi am hanner awr .
3. Yna, tynnwch y dail o'r sosban a'u hidlo. Gadewch y dail mewn dŵr oer am sawl diwrnod.
4. Wedi ychydig ddiwrnodau, trowch nhw drosodd a'u gadael am sawl diwrnod arall.
5. Pan fydd rhannau gwyrdd y dail wedi meddalu, tynnwch nhw o'r sosban a'u rinsio'n ysgafn mewn dŵr glân.
6. Defnyddiwch frws paent medal i gael gwared ar unrhyw 'gnawd' dros ben.
7. Ar ôl iddyn nhw sychu, gallant ddefnyddio'r sgerbydau dail i ysbrydoli darlun neu baent, fel addurn prosiect celf ac ati.




### GWEITHGAREDD 23

## TLYSAU'R DAIL



### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn caniatáu i ddysgwyr chwarae'n greadigol, gan archwilio lliw a maint, a helpu i ddatblygu eu sgiliau symud.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Darn o gortyn/edafedd â selotep ar un pen

### Beth i'w wneud...

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr gasglu amryw o ddail diddorol yr olwg, gan ystyried patrwm, maint, lliw ac ati.
2. Rhowch y dail ar ddarn o gortyn drwy'r darn wedi'i selotapio. Gallwch eu trefnu mewn ffordd arbennig i edrych yn bert.
3. Clymwch bennau'r cortyn at ei gilydd i greu cadwynau, breichledau neu feltiau.
4. Hwyrach na fyddan nhw'n para'n hir iawn – ond mae'n hwyl i'w creu!

# Awyr Agored Creadigol

// Gemau a Gweithgareddau



GWEITHGAREDD 24

## PAPUR WEDI'I WNEUD Â LLAW/WEDI'I AILGYLCHU



### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn ystyried y broses o ailgylchu papur.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Sgrapiau o bapur lliw, hambyrddau bas, rhwyll wifrog, sbyngau, ffoil a chymysgydd. Does dim ots os yw'r lliwiau tywyllach yn cynnwys inc, ond byddwch yn ofalus gyda phapurau gwyn a melyn sy'n dueddol o droi'n llwyd os oes gormod o inc arnyn nhw.

### Beth i'w wneud...

**Gan ddibynnu ar allu'ch dysgwyr, ceisiwch eu hannog i wneud cymaint ag y bo modd o'r broses ganlynol:**

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddidoli'r papur yn lliwiau gwahanol a'u rhwygo'n ddarnau mân.
2. Ar ôl didoli'r papurau yn ôl lliw gwahanol, rhowch nhw mewn cymysgydd hyd at 1/3 llawn ac ychwanegu dŵr oer tan fod y cymysgydd bron yn llawn. Dylai'r cymysgydd droi ar gyflymder araf i ganolig tan fod y pwlp fel uwd, cyn ei dywallt i'r hambwrdd bas wedyn.
3. Dylech ddefnyddio rhwyll wifrog (fel sy'n cael ei gwerthu i drwsio corff car) fel mowld ar gyfer y papur. Rhowch y rhwyll o dan y pwlp papur yn yr hambwrdd, gan adael i'r papur ddisgyn yn gyfartal arni. Yn dibynnu ar faint y grŵp a faint o liwiau gwahanol sydd gennych, efallai y bydd angen sawl llwyth ar gyfer pob lliw.
4. Rhowch ddarn o ffoil dros y pwlp a'i wasgu'n ofalus er mwyn gwasgu mwy o ddŵr allan tra'n ei ddal dros yr hambwrdd.
5. Yna, dylech droi'r mowld drosodd fel bod y ffoil ar y gwaelod, a'i osod ar y bwrdd. Defnyddiwch sbwng wedyn i wasgu drwy'r rhwyll a chael gwared ar gymaint o leithder ag sy'n bosib.
6. Ar ôl gorffen gwneud hyn, tynnwch y rhwyll a gadewch y papur i sychu.
7. Gallwch ychwanegu ddail neu flodau at y papur. Bydd angen gwneud hyn tra mae dal tipyn o ddŵr yn yr hambwrdd, felly unwaith mae'r ffoil ar ben y pwlp, dylech ei droi ar unwaith a thynnu'r rhwyll.
8. Rhowch y blodau/dail ar y pwlp ac ychwanegu ychydig mwy o bwlp ar yr ymylon i'w cadw yn eu lle. Rhowch y rhwyll yn ôl a pharhau fel o'r blaen. Gallwch ychwanegu petalau at y pwlp cyn ei roi yn y mowld.
9. Gallwch ychwanegu pwlp lliw arall i greu patrymau a lluniau. Fel gyda'r dail, dylid tynnu'r rhwyll ac ychwanegu'r pwlp â llaw i greu llun. Yna, dylid rhoi'r rhwyll maint llawn yn ôl cyn defnyddio'r sbwng i amsugno gweddill y dŵr rhag difetha'r patrwm.
10. Gallwch dorri'r rhwyll yn siapiau eraill fel nad yw'r papur bob amser yn sgwâr. Beth am ei thorri'n gylchoedd, siapiau dail ac ati? Mae'n hawdd defnyddio siswrn cyffredin i dorri rhwyll wifrog.
11. Er mwyn gallu ysgrifennu ar y papur gorffenedig, bydd angen ychwanegu rhywfaint o glyserin neu startsh hylifol fel bod y papur gorffenedig yn llai mandyllog.
12. Os ydych chi'n poeni am unrhyw ymylon metel ar y mowld, gallwch ei staplo ar ffrâm bren. Unwaith mae'r grŵp wedi dod i arfer â gwneud hyn, mae'r posibiliadau'n ddiddiwedd!

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Awyr Agored Creadigol

// Gemau a Gweithgareddau




## GWEITHGAREDD 25

# POBL Y DAIL

### Crynodeb


**Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio siapiau a ffurfiau.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Glud a phapur

### Beth i'w wneud....

1. Dywedwch wrth eich dysgwyr am gasglu pob math o ddail gwahanol.
2. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddewis deilen i gynrychioli corff eu person, a'i gludo ar ddarn o bapur.
3. Nawr, dewiswch ddail eraill i'w hychwanegu fel rhannau o'r corff neu eu darlunio ar y papur tan fod y dysgwyr yn hapus gyda'u person deiliog.
4. Opsiwn arall yw gofyn i'r dysgwyr dorri dail yn siapiau gwahanol a'u defnyddio i greu ffigurau siâp gwahanol, collage, adeiladau, brithwaith ac ati.






## GWEITHGAREDD 26

# MANDALÂU

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio'r defnydd o natur i greu mandalâu geometrig/symbolaidd. Gweithgaredd tawel hamddenol braf, gyda thrin deunyddiau'n dyner a gofalus yn darparu elfen ysbrydol.**

### Beth i'w wneud...

1. Trafodwch ystyr y gair 'mandala' a'i darddiad. (Symbol ysbrydol a defodol i'r Hindŵaid a'r Bwdhyddion, sy'n cynrychioli'r bydysawd. Erbyn hyn, mae mandala'n cael ei ddefnyddio fel term cyffredinol ar gyfer unrhyw ddiagram, siart neu batrwm geometrig sy'n cynrychioli'r cosmos).
2. Casglwch ddeunyddiau naturiol i'w defnyddio a chydweithio i greu cynllun cylchol, dilynol. Croeso i chi greu rhywbeth mor syml neu gymhleth ag y mynnoch, gyda lliwiau cyfatebol neu wrthgyferbyniol, a phatrymau byrfyfyr neu ailadroddus.
3. Mae modd creu mandalâu fel unigolion, mewn parau, grwpiau bach neu fawr.

